# Diogelwch Ar-lein a Diogelu Data

## Datganiad ar y Cyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar Gydweithio ar Reoleiddio Gwasanaethau Ar-lein

**1 Mai 2024**

# 1. Rhagarweiniad

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yw'r cyrff sy'n gyfrifol am reoleiddio diogelu data a diogelwch ar-lein yn y DU ac mae'r naill a'r llall wedi ymrwymo i ddiogelu defnyddwyr ar-lein. Ein nod yw hyrwyddo cydymffurfiaeth a chefnogi arloesedd, gwella eglurder rheoleiddiol, a galluogi twf parhaus drwy gael gwared ar feichiau rheoleiddio gormodol.

Fe wnaethom gyhoeddi datganiad ar y cyd yn 2022[1] yn nodi ein gweledigaeth gyffredin ar gyfer tirwedd rheoleiddio glir a chydlynol ar gyfer gwasanaethau ar-lein, gan sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau'r naill reoleiddiwr a'r llall. Mae'r datganiad diweddaraf hwn yn adeiladu ar y weledigaeth honno drwy nodi'n fanylach sut byddwn yn cydweithio lle byddwn yn canfod materion a chyfleoedd diogelwch ar-lein a diogelu data trawsbynciol wrth reoleiddio gwasanaethau penodol. Byddwn yn adolygu'r dull hwn o gydweithio yn rheolaidd i sicrhau ei fod yn dal yn effeithiol.

Mae'r ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu disgrifio yn y datganiad hwn yn cael eu defnyddio gan gydweithwyr gweithredol mewn timau ar draws Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom sy'n goruchwylio ac yn ymgysylltu â gwasanaethau.[2]

**Mae'r datganiad hwn yn amlinellu sawl maes o gydweithio gwell:**

(i) **Themâu cydweithio** – byddwn yn nodi materion sydd o ddiddordeb a pherthnasedd i'r naill reoleiddiwr a'r llall, y byddwn yn eu galw o hyn ymlaen yn 'Themâu cydweithio' (fel sy'n cael ei egluro yn Adran 2)

(ii) **Cwmnïau o ddiddordeb cyffredin** – byddwn yn nodi lle'r ydym yn goruchwylio'r un gwasanaethau neu'n ystyried materion sy'n ymwneud â'r un gwasanaethau (gweler Adran 3)

(iii) **Ffyrdd newydd o weithio** – byddwn yn defnyddio cyfarfodydd staff rheolaidd i rannu gwybodaeth am Themâu cydweithio a chwmnïau o ddiddordeb cyffredin, lle bo hynny'n briodol (mae hyn yn cael ei egluro yn Adran 5)

Mewn rhai achosion, bydd ein dull o gydweithio yn golygu datgelu gwybodaeth berthnasol sydd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth mewn perthynas â gwasanaethau. Pan fo'n berthnasol, dim ond yn unol â'r pyrth datgelu sy'n berthnasol i Ofcom ac i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth y bydd unrhyw ddatgeliad o'r fath yn cael ei wneud. Mae ein dull gweithredu ar gyfer hyn yn cael ei egluro ymhellach isod.

Isod, rydym yn nodi ein prosesau ar gyfer cydweithio ac yn rhoi gwell eglurder i wasanaethau am sut rydym yn gweithio gyda'n gilydd yn weithredol.

.

[1] Diogelwch ar-lein a diogelu data: datganiad ar y cyd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (drcf.org.uk)

[2] Ymgynghoriad Ofcom ar Niwed Anghyfreithlon (Cyfrol 6)

## 2. Themâu cydweithio

I wella'r cydweithio ar faterion sydd o ddiddordeb cyffredin, bydd cydweithwyr Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi ac yn monitro'n barhaus 'Themâu cydweithio' a ddaw i'r amlwg.

Mae Themâu cydweithio yn faterion sydd o ddiddordeb cyffredin i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac i Ofcom oherwydd eu perthnasedd thematig a sylweddol i'r trefniadau diogelwch ar-lein a diogelu data. Bydd canfod Themâu cydweithio yn cychwyn trafodaeth am sut mae ein timau'n bwriadu cydweithio (gweler Adran 5, 'Ffyrdd o Weithio'), a allai gynnwys ymgysylltu ar y cyd â gwasanaethau i sicrhau eglurder a chydlyniad rhwng ein gofynion.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom wedi nodi set gychwynnol o Themâu cydweithio sy'n deillio o ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol ar ddiogelwch ar-lein a diogelu data (gweler y blwch isod).

Bydd y Themâu cydweithio yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd a gallant newid wrth i flaenoriaethau newydd ddod i'r amlwg ac mewn ymateb i unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Bydd cydweithwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yn cwrdd yn rheolaidd, gan ddod ag aelodau perthnasol o staff at ei gilydd i drafod y Themâu cydweithio presennol ac i ystyried a oes angen monitro unrhyw themâu sy'n dod i'r amlwg yn y dyfodol.

**<u>Enghreifftiau dangosol o Themâu cydweithio</u>**

- **Sicrhau oedran** – mae hyn yn cyfeirio ar y cyd at ddulliau, gan gynnwys amcangyfrif a dilysu oedran, a ddefnyddir i amcangyfrif neu sefydlu oedran defnyddiwr er mwyn gallu teilwra gwasanaethau yn ôl eu hanghenion a rhoi mesurau diogelu ar waith sy'n briodol i'w hoedran, neu i liniaru'r risg o niwed sy'n deillio o brosesu data personol plant.
- **Systemau argymell** - mae systemau argymell yn defnyddio algorithmau i guradu ac i bennu safle cynnwys sy'n cael ei awgrymu i ddefnyddwyr gwasanaethau ar-lein ar sail data am eu nodweddion, eu diddordebau tybiedig a'u hymddygiad. Mae cod plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn datgan na ddylai gwasanaethau ddefnyddio data personol plant mewn ffyrdd y dangoswyd eu bod yn niweidiol i'w llesiant
- **Technoleg ragweithiol ac offer AI perthnasol** – o dan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein, mae 'technoleg ragweithiol' yn cyfeirio at: (i) technoleg adnabod cynnwys, sy'n dadansoddi cynnwys i asesu a yw'n fath penodol o gynnwys; (ii) technoleg proffilio defnyddiwr, sy'n dadansoddi cynnwys, data defnyddiwr neu fetadata perthnasol sy'n ymwneud â chynnwys perthnasol neu ddata defnyddiwr er mwyn creu proffil o ddefnyddiwr i asesu nodweddion fel oedran; neu (iii) technoleg adnabod ymddygiad, sy'n dadansoddi cynnwys, data defnyddiwr neu fetadata perthnasol sy'n ymwneud â chynnwys perthnasol neu ddata defnyddiwr i asesu ymddygiad ar-lein neu batrymau ymddygiad ar-lein defnyddiwr.
- **Gosodiadau diofyn a gosodiadau daearleoliad ar gyfer defnyddwyr sy'n blant** – mae hyn yn cyfeirio at weithredu gosodiadau diofyn gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr sy'n blant, er mwyn lliniaru'r risgiau o niwed. O dan god Plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, rhaid i'r gosodiadau fod yn uchel o ran preifatrwydd yn ddiofyn a rhaid

diffodd opsiynau daearleoliad yn ddiofyn oni bai fod gwasanaeth yn dangos rheswm cryf dros osodiad gwahanol, gan ystyried buddiannau gorau'r plentyn.

- **Dyletswyddau preifatrwydd diogelwch ar-lein** – mae hyn yn cyfeirio at y ddyletswydd a osodir gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein i wasanaethau ystyried pwysigrwydd diogelu defnyddwyr rhag torri unrhyw ddarpariaeth statudol neu reol gyfreithiol sy'n ymwneud â phreifatrwydd wrth benderfynu ar fesurau a pholisïau diogelwch.
- **Cynnal telerau, polisïau a safonau cymunedol** – mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod gwasanaethau'n cyhoeddi telerau gwasanaeth clir a hygyrch. Mae cod plant Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn mynnu bod gwasanaethau'n cynnal eu telerau, eu polisïau a'u safonau cymunedol sydd wedi'u cyhoeddi (gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i bolisïau preifatrwydd, cyfyngiadau oedran, rheolau ymddygiad a pholisïau cynnwys).

**Sylwer: rhagwelir y bydd y themâu hyn yn esblygu dros amser. Mae'r themâu uchod wedi'u cyfyngu i'r mesurau mae Ofcom wedi ymgynghori arnynt hyd yma mewn perthynas â'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein.**

## 3. Cwmnïau o ddiddordeb cyffredin

Er mwyn canfod cyfleoedd ar gyfer cydweithio rheoleiddiol mwy effeithiol, bydd ein cydweithwyr sy'n gyfrifol am oruchwylio gwasanaethau ar-lein yn ystyried a yw endidau sy'n cael eu rheoleiddio yn 'gwmnïau o ddiddordeb cyffredin'.

Mae'r rhain yn gwmnïau, neu'n wasanaethau, sy'n rhwym wrth y trefniadau diogelwch ar-lein a diogelu data, ac sydd o ddiddordeb rheoleiddiol ar hyn o bryd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac i Ofcom (oherwydd y gorgyffwrdd posibl rhwng cydymffurfio â diogelwch ar-lein a diogelu data). Os yw cwmni o ddiddordeb i un rheoleiddiwr yn unig, ni fydd hwn yn cael ei ystyried yn gwmni o ddiddordeb cyffredin. Os canfyddir cwmni sydd o ddiddordeb cyffredin, byddwn yn ystyried sut gallem gydweithio (gweler Adran 5, 'Ffyrdd Newydd o Weithio').

## 4. Datgelu gwybodaeth

Yn y datganiad hwn rydym yn nodi'r dull gweithredu rydym yn ei gynnig i gydweithio, gan gynnwys yr wybodaeth mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn bwriadu ei datgelu i'w gilydd. Fel sy'n cael ei ddisgrifio isod, mewn rhai achosion bydd hyn yn golygu datgelu rhywfaint o wybodaeth sydd gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth am wasanaethau (ee enw'r cwmni a'r Themâu cydweithio sy'n gysylltiedig â'r cwmni hwnnw).

Mae'n bosibl y bydd datgelu rhywfaint o'r wybodaeth honno am y gwasanaeth yn berthnasol i'r fframweithiau statudol sy'n rheoli'r broses o ddatgelu gwybodaeth gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

- Ar gyfer Ofcom – mae adran 393 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn gwahardd datgelu gwybodaeth benodol am fusnes heb ganiatâd oni bai fod porth statudol yn berthnasol. Un porth o'r fath yw pan fydd datgeliad yn cael ei wneud er mwyn hwyluso Ofcom i gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau;

- Ar gyfer Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – mae adran 132 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn gwahardd datgelu gwybodaeth gyfrinachol am unigolyn neu fusnes oni bai fod y datgeliad yn cael ei wneud gydag awdurdod cyfreithlon. Diffinnir awdurdod cyfreithlon yn adran 132(2) ac mae'n cynnwys pan fydd y datgeliad yn cael ei wneud at ddibenion cyflawni un neu ragor o swyddogaethau a datgeliadau'r Comisiynydd Gwybodaeth a wneir er budd y cyhoedd gan ystyried yr hawliau, y rhyddid a'r buddiannau cyfreithlon neu unrhyw berson (rhagwelir, mewn llawer o achosion, y bydd rhannu gwybodaeth ag Ofcom at ddibenion cyflawni ei swyddogaethau yn debygol o fod er budd y cyhoedd). Mae seiliau eraill yn adran 132(2) a all fod yn gymwys mewn achos penodol.

I'r graddau mae adran 393 ac adran 132 yn ymwneud â datgelu unrhyw wybodaeth am wasanaeth, mae Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod y dull gweithredu rydym wedi'i nodi yn cyd-fynd â'r darpariaethau sy'n berthnasol iddynt.

Mae gan Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth swyddogaethau o dan Ddeddf Diogelwch Ar-lein 2023, ac Erthyglau 57 a 58 GDPR y DU ac adrannau 115-116 o Ddeddf Diogelu Data 2018 yn y drefn honno. O ystyried natur drawsbynciol diogelwch ar-lein a diogelu data, rydym o'r farn bod angen cymryd rhan yn y cydweithio a'r ymgysylltu a nodir yn y ddogfen hon, gan gynnwys y rhannu gwybodaeth a ddisgrifir, er mwyn arfer ein swyddogaethau. Rydym yn disgwyl gwneud y math o ddatgeliad y cyfeirir ato yn y datganiad hwn heb roi gwybod ymlaen llaw i'r gwasanaeth perthnasol y mae ei wybodaeth i'w datgelu.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai bydd angen i Ofcom ac i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rannu gwybodaeth y tu hwnt i'r hyn a ddisgrifir yn y datganiad hwn pan ganiateir hyn o dan y pyrth rhannu gwybodaeth perthnasol. Ystyrir faint o wybodaeth a gaiff ei datgelu a'r broses berthnasol fesul achos. **Efallai y bydd adegau pan fydd gwybodaeth o'r fath yn cael ei datgelu heb roi gwybod i'r gwasanaeth perthnasol ymlaen llaw.**

## 5. Ffyrdd newydd o weithio

Bydd ein timau'n addasu dulliau cydweithio gan ddibynnu ar i ba raddau mae Themâu cydweithio yn bresennol yn ein goruchwyliaeth o gwmnïau sydd o ddiddordeb cyffredin.

Pan fydd gwybodaeth yn ymwneud â **chwmni o ddiddordeb cyffredin ac mae'n un o'r mathau penodol a restrir isod,** bydd cydweithwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yn rhannu gwybodaeth fel a ganlyn yn rheolaidd:

- Gwybodaeth gyffredinol am geisiadau am wybodaeth am faterion diogelwch ar-lein – caiff Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rannu gwybodaeth gyffredinol am geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys Hysbysiadau Gwybodaeth, sy'n ymwneud â materion sydd o bosibl yn gorgyffwrdd rhwng diogelwch ar-lein a diogelu data. Caiff Ofcom rannu gwybodaeth gyffredinol am geisiadau am wybodaeth, gan gynnwys Hysbysiadau Gwybodaeth, sy'n berthnasol i ddiogelwch ar-lein. Ar gyfer y ddau reoleiddiwr, mae gwybodaeth gyffredinol yn cynnwys dyddiad y cais, amser/dyddiad yr ymateb disgwyliedig, ac enw neu enwau'r cwmni. **Nid yw'n cynnwys gwybodaeth am yr hyn sydd yn y cais.**

- Gwybodaeth am gyfarfodydd rhanddeiliaid sy'n ymwneud â materion diogelwch ar-lein – caiff Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â materion sydd o bosibl yn gorgyffwrdd rhwng diogelwch ar-lein a diogelu data. Bydd Ofcom yn cael rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol i ddiogelwch ar-lein. Ar gyfer y naill reoleiddiwr a'r llall, mae'r

wybodaeth ceir ei rhannu'n rheolaidd wedi'i chyfyngu i ddyddiadau cyfarfodydd, unrhyw Themâu cydweithio perthnasol ac enwau'r cwmni neu'r cwmnïau.

- Gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd a allai fod o ddiddordeb i'r rheoleiddiwr arall ee gwybodaeth am gwmni o ddiddordeb cyffredin ar hyn o bryd sydd wedi cael sylw yn y wasg.

Pan fydd gwybodaeth yn ymwneud â **Thema cydweithio heb enwi cwmni penodol**, ceir rhannu'r wybodaeth hon rhwng cydweithwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom. Byddai enghreifftiau damcaniaethol yn cynnwys 'Ar hyn o bryd mae tîm goruchwylio Ofcom yn edrych ar systemau argymell a sut mae gwasanaethau'n lleihau'r risg o argymell cynnwys niweidiol i blant' neu 'Yn ystod y chwarter nesaf, mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn bwriadu edrych ar faterion diogelu data sy'n codi o ddefnyddio cymedroli cynnwys awtomataidd ar draws nifer o blatfformau cyfryngau cymdeithasol.'

Pan fydd gwybodaeth yn ymwneud â **Thema cydweithio a chwmni penodol o ddiddordeb cyffredin**, caiff cydweithwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom rannu enw'r cwmni a'r thema. Byddai enghreifftiau damcaniaethol yn cynnwys 'mae Ofcom yn siarad â chwmni A am gymedroli cynnwys' neu 'Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cael cyfarfod wythnos nesaf gyda chwmni B am osodiadau preifatrwydd diofyn plant.'

Pan fydd gwybodaeth yn ymwneud â **Thema cydweithio a chwmni penodol nad yw'n gwmni o ddiddordeb cyffredin**, **ni** fyddai'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu fel mater o drefn, ond bydd yn amodol ar asesiad fesul achos. **DS** Pan fydd angen rhannu **gwybodaeth arall a / neu fwy manwl** er mwyn i bob rheoleiddiwr gyflawni ei swyddogaethau (Ofcom a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth), neu er budd y cyhoedd, ni fydd unrhyw beth yn y ffyrdd newydd o weithio yn atal rhannu o'r fath rhag digwydd yn unol â fframwaith deddfwriaethol pob rheoleiddiwr.

## 6. Y camau nesaf

Mae'r datganiad ar y cyd hwn yn amlinellu ein dull presennol o gydweithio ac ymgysylltu â gwasanaethau. O bryd i'w gilydd byddwn yn gwerthuso effeithiolrwydd y dulliau hyn ac yn canfod cyfleoedd i'w gwella.

Bydd cydweithwyr Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ac Ofcom yn defnyddio eu cyfarfodydd rheolaidd i drafod a oes unrhyw Themâu cydweithio, cwmnïau o ddiddordeb cyffredin a chyfleoedd ar gyfer cydweithio rheoleiddiol. Fel y nodwyd uchod, dros amser ychwanegir at ein Themâu cydweithio.

Byddwn yn rhoi gwybod yn rheolaidd i randdeiliaid am ddiweddariadau i'n ffyrdd o gydweithio, er mwyn bod yn glir am ein dulliau cydweithio, fel sy'n briodol.